

Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cofrestru Etholiadol heb Geisiadau) (Diwygio Etholiadol) (Cymru) 2026

Hydref 2026

1. Y cefndir

1. Mae Adran 3 o **Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024** ("Deddf 2024") yn darparu ar gyfer ychwanegu etholwyr cymwys at y gofrestr llywodraeth leol yng Nghymru heb i'r unigolyn orfod cyflwyno cais, a elwir hefyd yn Gofrestru Pleidleiswyr yn Awtomatig ("AVR").

2. O dan y darpariaethau, bydd angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol wirio hunaniaeth person i fodloni cymhwysedd. At hynny, bydd angen iddyn nhw hysbysu'r unigolyn y maen nhw'n bwriadu ei gofrestru, a darparu cyfnod rhybudd i ganiatáu i'r etholwr ofyn am gael ei gofrestru'n ddienw, neu optio allan o'r gofrestr yn gyfan gwbl. Os yw etholwr yn gwrthwynebu cofrestru, rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ddilyn y broses bresennol a gwahodd y person i wneud cais i gofrestru.

3. Mae adran 72(5) o Ddeddf 2024 yn nodi, cyn cychwyn y darpariaethau yn adran 3, ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru dreialu darpariaeth AVR. Mae'r pŵer i gynnal y cynlluniau peilot wedi'i amlinellu yn adran 5 o'r Ddeddf honno.

4. Byddai'r cynlluniau peilot yn defnyddio "data lleol presennol i nodi a gwirio etholwyr posibl". Pe ystyriwyd bod y cynlluniau peilot hyn yn llwyddiannus,



gallai'r drefn cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig gael ei chyflwyno ledled Cymru.

Cynlluniau peilot Cofrestru Pleidleiswyr yn Awtomatig

5. Ym mis Ionawr 2025, cytunodd y Senedd ar Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cofrestru Etholiadol heb Geisiadau) (Cynllun Peilot) (Cymru) 2025, a alluogodd cynghorau Gwynedd, Casnewydd a Phowys i gynnal cynlluniau peilot, ynghyd â Chyngor Sir Caerfyrddin (nad oedd wedi'i gynnwys yn y rheoliadau gan na fyddai'n ychwanegu pobl at y gofrestr).

6. Yn ystod y cynlluniau peilot, roedd yn ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gymryd y camau angenrheidiol i nodi enwau a chyfeiriadau personau nad oeddent wedi'u cofrestru, yng nghofrestr etholwyr llywodraeth leol. Yn gyffredinol, roedd yn ofynnol iddynt ddod o hyd i ddata cyfatebol o ddwy ffynhonnell, o leiaf, a oedd yn nodi'r etholwr heb ei gofrestru.

7. Roedd gan y personau a nodwyd gyfnod rhybudd o 60 diwrnod lle gallent optio allan o gofrestru heb wneud cais, neu wneud cais i gofrestru'n ddienw.

8. O dan y rheoliadau peilot, byddai'n rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol archwilio cofnodion perthnasol i adnabod y cyfryw bersonau o leiaf bedair gwaith mewn blwyddyn galendr.

Gwerthusiad o'r cynlluniau peilot

9. Roedd yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol gynnal gwerthusiad o'r cynlluniau peilot, a chyhoeddodd ei adroddiad a'i argymhellion ym mis Rhagfyr 2025.

10. Clywsom gan Gyngor Sir Powys fod y broses, ar y cyfan, wedi bod yn llwyddiannus, fel a ganlyn:

"It was possible to use local data sets to identify individuals that weren't registered and send them a notice of registration.....We found just over 5,000 individuals, which worked out at approximately 5 per cent of our register. I think there was overall confidence that the people we found were accurate."

11. Nododd ac ychwanegodd y cynlluniau peilot ychydig dros 14,500 o etholwyr newydd at y cofrestrau etholiadol, yn ogystal â 1,500 o 'gyrhaeddwyr' (pobl 14 a 15 oed sy'n gymwys i gofrestru). Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod y cynlluniau peilot yn awgrymu y "gellid cyflwyno cofrestru awtomatig yng Nghymru a gallai gael effaith gadarnhaol ar gyflawnder cofrestrau etholiadol". Fe wnaeth, fodd

bynag, nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Ystyried yr adnoddau sydd eu hangen i sicrhau y gall y Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u timau gyflwyno system gofrestru awtomatig newydd;
- asesu costau cyffredinol rhoi'r cynllun ar waith ynghyd â'r manteision tebygol;
- ystyried yr amseru a'r amllder gorau ar gyfer proses gofrestru awtomatig;
- ystyried lleihau'r cyfnod hysbysu o 60 diwrnod;
- sicrhau fod arweiniad priodol ar ansawdd a defnydd data;
- datblygu system feddalwedd rheoli etholiadol;
- ystyried sut orau i roi'r math o gofrestru awtomatig a gyflwynwyd yng Nghymru ar waith er mwyn caniatáu integreiddio effeithlon yn y dyfodol ag unrhyw system ledled y DU.

2. Rheoliadau 2026

12. Yn dilyn y cynlluniau peilot, gosodwyd Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cofrestru Etholiadol heb Geisiadau) (Diwygio Etholiadol) (Cymru) 2026 ("y Rheoliadau") gerbron y Senedd ym mis Mehefin 2026. Byddai'r rhain yn cyflwyno system AVR debyg i'r un a oedd yn destun y cynllun peilot.

13. Yn y Memorandwm Esboniadol ("y Memorandwm") i'r Rheoliadau, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi "ystyried canfyddiadau" adroddiad gwerthuso'r Comisiwn Etholiadol ac wedi ymgorffori ei hargymhellion o fewn y Rheoliadau "lle bo'n briodol". Tynnodd y Memorandwm Esboniadol sylw at y ddau welliant canlynol i'r ddarpariaeth beilot:

- Byddai'r cyfnod hysbysu 'optio allan' o 60 diwrnod yn cael ei leihau i 28 diwrnod; a hefyd
- byddai'n ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gynnal ymarfer AVR o leiaf unwaith mewn blwyddyn galendr, yn hytrach na hyd at bedair gwaith.

14. Cyfeiriwyd y Rheoliadau at y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio ("y Pwyllgor") i gynnal gwaith craffu arnynt, gyda dyddiad cau cychwynnol ar gyfer adrodd o 25 Medi 2026. O dan y weithdrefn a bennir yn adran 19 o Ddeddf 2024, gall pwyllgor sy'n gyfrifol am graffu ar reoliadau diwygio etholiadol argymell y dylai gweithdrefn graffu estynedig o 60 diwrnod fod yn gymwys. Buom yn ystyried ein dull o graffu ar y Rheoliadau yn ein cyfarfod ar 16 Gorffennaf 2026 a chytunwyd i argymell y dylid cymhwyso'r weithdrefn graffu estynedig o 60 diwrnod. Gan na wrthodwyd ein hargymhelliad gan y Senedd, cymhwyswyd y weithdrefn graffu estynedig 60 diwrnod a oedd yn ein galluogi i gasglu rhagor o dystiolaeth ar y Rheoliadau.

15. Cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth ffurfiol ar **17 Medi** ac **1 Hydref** 2026 i lywio ein gwaith craffu ar y Rheoliadau. Ategwyd y sesiynau hyn gan dystiolaeth ysgrifenedig gan amrywiaeth o randdeiliaid eraill. Mae rhestr o'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar gael yn yr atodiad i'r adroddiad hwn.

Amseriad ar gyfer cyflwyno Cofrestru Pleidleiswyr yn Awtomatig (AVR)

16. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Cofrestru Pleidleiswyr yn Awtomatig mewn pryd ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2027. Cyfeiriodd y Comisiwn Etholiadol at yr amserlenni ar gyfer cyflwyno fel rhai cynyddol heriol yng ngoleuni'r gweithgaredd y bydd angen i dimau etholiadol ei ymgymryd ag ef er mwyn gweithredu AVR cyn yr etholiad, gan nodi:

"those timescales are going to be placing a lot of pressure on electoral services teams at a time when they are already delivering the annual canvass this year and when they should be beginning their preparations for the elections next year."

17. Fodd bynnag, fe wnaeth y Comisiwn gydnabod y byddai'n sicr yn gyfle a gollwyd pe na ellir cyrraedd pwynt lle gellid cyflwyno AVR cyn etholiadau lleol y flwyddyn nesaf.² Aeth ymlaen i ddweud:

"it's still possible to roll out automatic registration in time for next year's local government elections. But I think we would say that it is at the point now where if the timescales slip any further, it's going to become increasingly challenging to deliver those."

¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 9

² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 11

18. Ychwanegodd y Comisiwn fod y ddeddfwriaeth a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gweithredu yn cael eu cyflawni yn ddiweddarach na'r delfryd.³ Mynegwyd rhwystredigaeth gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, hefyd:

*"The fact that legislation is not going to be in place until probably early November now at the earliest as well, and then to expect administrators to literally go the next day and administer this process is really an unusual situation to be in. It doesn't comply with the Gould principle, where there should be at least a six-month period for people to understand what is required of them."*⁴

19. Dywedodd y Bwrdd Rheoli Etholiadol i Gymru y byddai'r cyfnod hyd at etholiadau Mai 2027 yn hynod brysur, ac y gallai'r sector gweinyddu etholiadol ei chael hi'n anodd gweithredu'r polisi ymlaen llaw cyn etholiadau 2027, heb adnoddau a chefnogaeth bellach. Fodd bynnag, roeddent o'r farn ei fod yn bosibl gwneud, er bod angen lliniaru'r risgiau a nodwyd:

*"the momentum and the resource that needs to be put in to make sure any issues they faced are removed and addressed, whether that's from software providers being able to deliver on time, whether it's in relation to the funding that's available, I think it's that responsiveness that's really, really critical if we're to see this be successful for 2027."*⁵

20. Cytunodd Cyngor Sir Powys ei bod yn bosibl, gan ddweud y byddai timau gwasanaethau etholiadol, os oes i gael, yn llwyddo oherwydd mai dyna a wnânt, ond ychwanegodd fod cydweithwyr, yn gyffredinol, yn teimlo'n eithaf llethol⁶.

21. Nododd [Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru](#) y gallai'r amserlen bresennol ac amseriad cadarnhau cyllid gyfyngu ar allu awdurdodau lleol i gynllunio, darparu adnoddau a pharatoi ar gyfer y cyflwyniad mor effeithiol ag y byddai'n ddymunol.

22. Mynegodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol ei phryderon inni:

"I think our biggest concern is that, if this process appears to be rushed in any way, shape or form, or sufficient time is not given to allow for people to do the work correctly, there's the risk of adding

³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 80

⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 155

⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 152

⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 160

people incorrectly to the register, because those checks haven't been done fully or properly. It's the impact that that has long term on the integrity of the process and on the delivery of elections going forward as well.”⁷

23. Aethant ymlaen i ddweud taw eu pryder mwyaf yw ein bod eisoes wedi rhedeg allan o amser, i ryw raddau,⁸ ac nad oes gallu i unrhyw beth lithro, gyda hynny'n peri pryder.⁹

24. Mynegwyd pryder ynghylch parodrwydd systemau meddalwedd rheoli etholiadol sydd eu hangen ar dimau etholiadol i gynnal yr ymarfer AVR gan rai rhanddeiliaid, gan gynnwys y Comisiwn Etholiadol a nododd fod rhywfaint o ansicrwydd yn dal i fodoli ynghylch pryd y bydd y diweddariadau i'r systemau hynny ar gael, ac yn barod i gefnogi'r ddarpariaeth o gofrestru awtomatig.¹⁰ Ychwanegon nhw fod Llywodraeth Cymru yn rheoli'r risg.¹¹ Mynegwyd pryderon, hefyd gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol ynghylch parodrwydd meddalwedd y mae timau mor ddibynnol arni i gyflawni hyn.¹²

25. Cawsom wybod y canlynol gan y Gweinidog:

“Mae'r amserlenni yn rhai uchelgeisiol, ond rydyn ni yn gweithio'n agos efo'r awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol i gefnogi'r cyflawni.

Mae egwyddor Gould yn dweud na ddylid newid cyfraith etholiadol o fewn chwe mis i etholiad y byddai'r newid hwnnw yn effeithio arno fo. Mae'r amserlen yn dynn, ond mi ydym ni o fewn y cyfyngiad yna, felly, mae popeth yn iawn.”¹³

26. Mewn ymateb i bryderon a godwyd mewn perthynas â pharodrwydd Systemau Rheoli Etholiadol, eglurodd swyddog o Lywodraeth Cymru'r canlynol:

“the software providers, they're existing, they've already got contracts with the 22 authorities. There are three software providers in Wales that operate. What we're talking about is adding on a workflow

⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 101

⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 154

⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 159

¹⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 9

¹¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 17

¹² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 154

¹³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 1 Hydref 2026, Cofnod y Trafodion, paragraffau 268-269

process and then a bit of data-matching functionality. We are talking to them almost every day, just to keep an eye on progress. At the moment, we're confident. We're keeping it under very, very close review.”¹⁴

Amllder ymarfer o ran cofrestru heb gais

27. Mae'r Rheoliadau'n cynnig bod yn rhaid cynnal ymarfer cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn galendr. Roedd y rheoliadau peilot wedi pennu isafswm o bedair gwaith ym mhob blwyddyn galendr. Fe wnaeth gwerthusiad y Comisiwn Etholiadol argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried amseriad yr ymarferion, gan awgrymu y gellid cynnal un broses “bob blwyddyn rhwng diwedd y canfasio blynyddol a chyn unrhyw etholiadau mis Mai a drefnwyd. Mewn blynyddoedd heb etholiadau wedi'u hamserlennu, byddai'n fuddiol hefyd cynnal ymarfer cyn y canfasio”.

28. Yn y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau, mae Llywodraeth Cymru yn datgan y bydd y newid hwn yn “lleihau'r baich gweinyddol ar swyddogion cofrestru tra'n parhau i ddarparu cyfle rheolaidd i gynyddu nifer y bobl ar y gofrestr etholiadol”. Nododd y Comisiwn Etholiadol y byddai lleihau'r amllder gofynnol yn lleihau rhai o'r heriau gweinyddol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn ystod y flwyddyn gyntaf, ond y gallai fod mwy o hyblygrwydd i gynnal mwy nag un ymarfer yn y blynyddoedd i ddod¹⁵. Roedd hon yn farn a rennir gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol. Cawsom wybod y canlynol gan y Comisiwn:

“even if there was only one exercise per year, it would still potentially be leading to an improvement in the completeness of the registers of somewhere between 2 per cent and 8 per cent, based on the experience from the pilot. So, that's still an important and helpful improvement on the accuracy, compared with where we are at the moment.”¹⁶

29. Nododd Un Llais Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y gallai cylchoedd AVR llai aml leihau baich gweinyddol, costau a lleddfu llwythi gwaith, ond nodwyd bod risgiau, hefyd, sy'n gysylltiedig â hynny. Nododd Un Llais Cymru y gallai cylchoedd llai aml “leihau cywirdeb a chyflawnrwydd y gofrestr, yn enwedig mewn ardaloedd â symudedd poblogaeth uchel”. Nododd

¹⁴Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 1 Hydref 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 296

¹⁵ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 49

¹⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 52

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y bydd angen rhagor o dystiolaeth i benderfynu a yw'n darparu cydbwysedd priodol rhwng effeithlonrwydd gweinyddol a chywirdeb y gofrestr.

30. Mynegodd Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru bryder y gallai gofyn i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gynnal yr ymarfer unwaith y flwyddyn fethu unrhyw un sydd wedi symud rhwng dyddiad archwilio'r cofnodion ac unrhyw ddiwrnod etholiad, a bod perygl i'r ymarfer ddod yn gynfas blynyddol arall. Dadleuodd y byddai proses gofrestru dreigl yn fwy effeithiol, a allai gyfuno ymarfer llawn yn flynyddol â hysbysiadau o fewn yr awdurdod lleol o unrhyw newidiadau.

31. Esboniodd swyddog o Lywodraeth Cymru fod prosesau eraill yn dal i fod ar gael ar gyfer cynnal y gofrestr drwy gydol y flwyddyn, yn enwedig y canfas blynyddol.¹⁷ O ran y gofyniad i gynnal ymarfer o leiaf unwaith y flwyddyn, dywedodd y Gweinidog wrthym ei fod yn gydbwysedd o ran ble i roi adnoddau, gan gydnabod bod timau etholiadol yn fach iawn ac ar y cyfan, bod y cydbwysedd yn gywir.¹⁸

Argaeledd ac ansawdd data lleol

32. Esboniodd y Comisiwn Etholiadol y bydd y data a ddefnyddir gan dimau etholiadol i nodi etholwyr cymwys yn cael ei bennu gan bob swyddog cofrestru, yn seiliedig ar eu hasesiad eu hunain o argaeledd y data ac a yw'n addas at y diben paru y mae angen iddynt ei ddefnyddio. Clywsom mai'r dreth gyngor yw'r set ddata fwyaf sydd ar gael i bob swyddog cofrestru, a hefyd y set ddata a nododd, yn sgil y cynlluniau peilot, y nifer fwyaf posibl o etholwyr. Cyfeiriodd y Comisiwn hefyd at setiau data eraill megis data addysg, a ddefnyddiwyd yn ystod y cynlluniau peilot.

33. Yn ei werthusiad o'r cynlluniau peilot, nododd y Comisiwn y "byddai angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ystyried yn ofalus pa ddata lleol fyddai fwyaf addas ar gyfer cofrestru awtomatig, gan gynnwys pryd a sut y dylid ei ddefnyddio". Cawsom wybod ganddynt y byddai angen i swyddogion cofrestru ystyried sut y casglwyd data, gan gynnwys y prosesau gwirio a ddefnyddiwyd wrth ei gasglu, a yw'r data yn gyffredinol neu wedi'i dargedu at grwpiau penodol, a pha mor aml y cafodd ei ddiweddar.¹⁹

¹⁷Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 1 Hydref 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 281

¹⁸Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 1 Hydref 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 361

¹⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraffau 70-71

34. Nododd y Bwrdd Rheoli Etholiadol y codwyd materion gan weinyddwyr etholiadol yn ymwneud ag ansawdd y data lleol sydd ar gael i nodi etholwyr newydd. Fe ddwedon nhw nad oes gan rai gweinyddwyr fynediad at setiau data eilaidd digon cadarn i'w galluogi i adnabod etholwyr heb eu cofrestru.

35. Tynnwyd sylw at yr heriau a brofwyd yn ei gynllun peilot gan Gyngor Sir Powys:

“There was a lot of manual intervention and work, which I think the Electoral Commission report does highlight. Data matching relies on good-quality and standardised data, none of which is what we have in local authorities. A lot of the data sets have been created for other purposes.

Data cleansing the data sets that were of use was quite time consuming, stripping out the incomplete records, ensuring that they were all of a standard good enough to take forward.”²⁰

36. Nododd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol ei phryderon ynghylch ansawdd ac argaeledd data, gan ddatgan bod rhai cynghorau wedi treulio hyd at wyth wythnos yn glanhau'r data, yn cynnal prosesau paru data ac yn gwirio ansawdd. Fe wnaethant bwysleisio mai'r risg fwyaf oedd yr amser sydd ei angen i lanhau'r data â llaw cyn paru data, a gwneud hynny o fewn amserlen fer. Ychwanegwyd ganddynt fod y dibyniaeth ar systemau â llaw yn peri elfen o risg ar gyfer gwallau.

37. Argymhellodd gwerthusiad y Comisiwn Etholiadol y dylai Llywodraeth Cymru “sicrhau fod arweiniad priodol ar ansawdd a defnydd data fel rhan o'r broses o roi cofrestru awtomatig ar waith”. Cawsom wybod ganddynt eu bod wedi gallu cyhoeddi canllawiau ar sail y Rheoliadau fel y'u drafftwyd, wrth baratoi ar gyfer cyflwyno AVR ar lefel genedlaethol.

38. Clywsom hefyd am yr heriau a brofwyd gan rai swyddogion cofrestru wrth gael mynediad at ddata, gan gynnwys yr amser y gall ei gymryd i gyflawni hynny. Nododd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol gyfyngiadau sy'n atal Swyddogion Cofrestru Etholiadol rhag cael data'n electronig a diffyg proses awtomataidd ar gyfer glanhau a pharu data. O ganlyniad, dywedodd y Gymdeithas honno y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn parhau i fod wedi'u cyfyngu i baru data â llaw a/neu'n methu â chael mynediad at ddigon o

²⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraffau 93-94

ffynonellau data heb newidiadau i reoliadau yng Nghymru. Dywedon nhw wrthym ei bod yn drueni nad yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal y pethau hynny yn gyntaf er mwyn caniatáu mwy o fynediad at y ffynonellau data o dan sylw, i gael gwared ar rai o'r rhwystrau sy'n bodoli ar hyn o bryd.²¹

39. Cawsom wybod gan y Comisiwn Etholiadol fod Llywodraeth Cymru yn darparu asesiadau o effaith data a chytundebau rhannu data templed i Swyddogion Cofrestru Etholiadol, y gallant eu defnyddio i helpu i gael data o'r adrannau dal data lleol, a ddylai fod yn ddefnyddiol iawn o ran cael rhywfaint o gysondeb²².

40. Dywedodd y Bwrdd Rheoli Etholiadol wrthym y byddai'n ysgrifennu at bob swyddog canlyniadau a phrif weithredwr awdurdodau lleol, i bwysleisio pwysigrwydd gallu timau etholiadol i gael mynediad at setiau data o adrannau eraill awdurdodau lleol.²³

41. Clywsom y canlynol gan un o swyddogion Llywodraeth Cymru:

*"the Cabinet Minister recently wrote to registered social landlords, to universities and to local authorities just to make sure that they are aware of this, and that data sharing will be really helpful in terms of the accuracy and completeness of the register. We're also sharing with local authority colleagues a sample data sharing template, data sharing agreement templates or data protection impact assessments."*²⁴

42. O ran cael mynediad at ffynonellau data eraill y tu hwnt i'r rhai a gedwir yn lleol, eglurodd swyddogion Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

"the Elections and Elected Bodies (Wales) Act 2024, which allows automatic registration, doesn't allow regulations to be made in relation to national insurance numbers, for example, to data held by UK authorities. ...At the moment, the regulations relate to local data sources, because that's what is within the powers of the overarching Act."

²¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 102

²² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 64

²³ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 148

²⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 1 Hydref 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 321

*"It's not so much that we can't use national data sets per se, if they have them for other reasons, lawfully, locally, but you can't be getting other people to check them for you."*²⁵

Cyfnod hysbysu ar gyfer 'optio allan'

43. Mae'r Rheoliadau fel y'u drafftwyd yn cynnig lleihau'r cyfnod hysbysu i unigolyn 'optio allan' o gofrestru awtomatig, o 60 diwrnod i 28 diwrnod. Argymhellodd y Comisiwn Etholiadol fod Llywodraeth Cymru yn ystyried "lleihau'r cyfnod hysbysu o 60 diwrnod", gan nodi y byddai "cyfnod byrrach yn cynnig mwy o hyblygrwydd o ran amseru ymarfer cofrestru awtomatig."

44. Pan gyflwynwyd Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), roedd y ddeddfwriaeth yn cynnig cyfnod hysbysu o 45 diwrnod i ganiatáu i etholwr ofyn am gael ei gofrestru'n ddienw, neu ofyn am beidio â chael ei gynnwys ar y gofrestr o gwbl. Diwygiwyd y Bil yn ystod ei daith drwy'r Senedd i gynyddu'r cyfnod rhybudd i 60 diwrnod, gyda'r nod o roi mwy o amser i bobl sy'n agored i niwed i ymateb. Nododd Llywodraeth Cymru ar y pryd, er fod 45 diwrnod, yn ei barn hi, yn briodol, ei bod yn barod i dderbyn y cynnydd gan y byddai'r cyfnod aros yn cael ei werthuso yn dilyn y cynlluniau peilot.

45. Mae'r Memorandwm i'r Rheoliadau yn nodi bod y gostyngiad "yn cynnig mwy o hyblygrwydd o ran amseru ymarfer cofrestru awtomatig, ac yn lleihau'r posibilrwydd o ddryswch i etholwyr ynghylch a ydynt wedi'u cofrestru i bleidleisio ai peidio—yn enwedig yn achos is-etholiadau". Mae hon yn farn a gefnogir gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, yn enwedig pe bai isetholiadau datganoledig. Dywedodd y Comisiwn Etholiadol wrthym mai prif fantais lleihau'r cyfnod hysbysu yw ei fod yn cynnig mwy o hyblygrwydd i Swyddogion Cofrestru Etholiadol mewn perthynas ag amseriad yr ymarfer cofrestru awtomatig hwnnw, er mwyn alinio'n well â'r calendr etholiadol ehangach, gan ychwanegu ei fod hefyd yn lleihau'r risg o ddryswch ymhlith etholwyr o ran a ydynt wedi cofrestru i bleidleisio ai peidio.²⁶

46. Cawsom wybod gan ambell randdeiliad, hefyd, y gallai cyfnod hysbysu hirach fod yn rhwystr i gyflwyno AVR mewn pryd ar gyfer etholiad 2027, gyda'r Comisiwn Etholiadol yn nodi y byddai'n gwneud amserlen sydd eisoes yn heriol

²⁵Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 1 Hydref 2026, Cofnod y Trafodion, paragraffau 335-336

²⁶ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff

ar gyfer gweithredu, hyd yn oed yn fwy heriol,²⁷ tra dywedodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol:

“if this is to be rolled out before the local government elections next year, you have to have a 28-day period. You’ve run out of time to have a 60-day period without it impacting detrimentally on the delivery of the local government elections next year.”²⁸

47. Dadleuodd Un Llais Cymru fod cyfnod hysbysu byrrach yn annog gweithredu cyflymach gan bleidleiswyr wrth barhau i amddiffyn eu hawliau, yn lleihau oedi gweinyddol ac yn cefnogi paratoi amserol cyn etholiadau. Cefnogwyd hyn gan Gyngor Sir Powys a gyfeiriodd at brofiad y cynllun peilot fel a ganlyn:

“Anyone who wanted to explore or needed to consider anonymous registration all rang us within the first two weeks of receiving that communication. Any parents who felt strongly that their child should not be on the register at that age rang and wanted to opt them out at that point.”²⁹

48. Er eu bod yn gyffredinol o blaid cyfnod hysbysu byrrach, roedd rhai rhanddeiliaid, hefyd, yn cydnabod anfanteision posibl, gan gynnwys y Comisiwn Etholiadol, a dderbyniodd ei fod yn caniatáu llai o amser i berson a oedd am optio allan o gofrestru i dderbyn llythyr a chymryd camau gweithredu, neu os oedd llythyr wedi'i ddanfôn i gyfeiriad blaenorol.³⁰ Nododd Un Llais Cymru y gallai ffenestr 28 diwrnod fod yn heriol i unigolion sydd â mynediad digidol cyfyngedig, llythrennedd isel, neu amgylchiadau byw ansefydlog. Cydnabu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, er gwaethaf yr effeithlonrwydd gweithredol posibl y gallai cyfnod o 28 diwrnod ei ddarparu, y gallai cyfnod optio allan byrrach beri risgiau i bobl sy'n agored i niwed. Nododd, i rai grwpiau yn benodol, fel dioddefwyr cam-drin domestig neu drwy orfodaeth, neu unigolion ag anableddau neu anghenion cyfathrebu, efallai na fyddant yn cael nac yn deall yr hysbysiadau, nac yn gweithredu arnynt mewn pryd.

49. Eglurodd Cymorth i Fenywod Cymru y gallai llawer o oroeswyr cam-drin fod eisiau sicrhau bod eu manylion yn cael eu gadael yn anhysbys am resymau megis diogelwch, eisiau cadw eu gwybodaeth yn breifat a theimladau o bryder

²⁷ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraffau 23-25

²⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 110

²⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 115

³⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 29

ynghylch gwybodaeth a rennir. Fe wnaethant bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod pob cyfle yn cael ei gynnig i oroeswyr i sicrhau nad yw eu manylion yn cael eu rhannu'n anfwriadol ar gofrestr etholiadol gyhoeddus, gan ychwanegu fel a ganlyn:

"Many individuals have access to these registers, including campaigners, elected representatives and political parties. Like anyone, these individuals are not immune to being perpetrators themselves or being manipulated into sharing information."

50. Pwysleisiodd Cymorth i Fenywod Cymru y bydd angen i oroeswyr ddeall y broses yn llawn, a chadw eu manylion yn ddiennw, gan ddweud po hiraf yw'r amserlen a ddarperir i oroeswyr, y mwyaf o gyfle fydd ganddyn nhw i gael mynediad at y wybodaeth hon a gallu cwblhau'r broses angenrheidiol.

51. Nododd y Gweinidog Cabinet yn ei llythyr at y Pwyllgor, "nid oes ymgynghoriad ffurfiol â sefydliadau rhanddeiliaid sy'n cynrychioli grwpiau agored i niwed wedi digwydd yn benodol ar y rheoliadau hyn". Mynegodd [Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru](#) ei siom gan ddweud, o ystyried yr hyn sydd yn y fantol wrth wneud hyn yn anghywir, nad oes unrhyw ymgynghoriad â gwasanaethau arbenigol sy'n cefnogi goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi digwydd wrth ddrafftio'r rheoliadau hyn. Ychwanegon nhw ei bod hi'n aneglur iddyn nhw i ba raddau, os o gwbl, y mae gwerthusiad y cynlluniau peilot wedi archwilio'r pwynt hwn ac archwilio sut y gellir lliniaru risgiau.

52. Cyfeiriodd y Comisiwn Etholiadol at ddiddymu'r gofrestr agored ar gyfer etholiadau datganoledig yng Nghymru fel ffordd bosibl o liniaru'r pryderon a godwyd ynghylch diogelwch, gan egluro fel a ganlyn:

*"That's the change that the Welsh Government will be bringing in from October, as part of the preparation and the groundwork for these regulations. That's something we've welcomed and previously recommended, and it will mean that, for people who are added to the register via any process now for the devolved version in Wales, businesses et cetera won't be able to purchase a copy of that open register."*³¹

53. At hynny, teimlai ambell randdeiliad y byddai cyfathrebu clir yn hanfodol wrth ddarparu amddiffyniad i bobl agored i niwed. Nododd Un Llais Cymru fod

³¹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 29

y cyfnod byrrach yn ymarferol os caiff ei ategu gan fesurau diogelwch cryfach, gan gynnwys cyfathrebu clir, hysbysiadau aml-sianel, a chyfeirio amlwg at lwybrau cofrestru dienw. Pwysleisiodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, Cyngor Sir Powys a'r Bwrdd Rheoli Etholiadol bwysigrwydd hyn.

54. Esboniodd swyddog o Lywodraeth Cymru fod cyfnod o 28 diwrnod yn fwy unol â phrosesau eraill ar gyfer ymateb ac i'r cynlluniau peilot ddangos bod y rhan fwyaf o bobl wedi ymateb yn ystod y pythefnos i dair wythnos gyntaf ar ôl cael y llythyr os oedden nhw'n bwriadu optio allan. Dywedodd y swyddog fod Llywodraeth Cymru yn eithaf hyderus bod 28 diwrnod yn ymddangos yn briodol.³²

55. Cydnabu'r Gweinidog y pryder a godwyd mewn perthynas â chydabod goroeswyr cam-drin trwy fod ar y gofrestr a chyfeiriodd at gofrestru dienw, gan ychwanegu ei bod hi'n awyddus iawn, nawr, i hyrwyddo gwybodaeth ynghylch y gallu hwnnw. Pwysleisiodd y Gweinidog y bydd y gohebiaeth a gyhoeddir gan dimau etholiadol yn nodweddu y gellir cael yr anhysbysrwydd hwn drwy'r system newydd.³³

56. Clywsom gan y Gweinidog fod gofalu am grwpiau sy'n agored i niwed yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, sy'n parhau i ymgysylltu â nhw, gan ychwanegu fel a ganlyn:

*"There will be a process of learning within this. As things are rolling out, there will be opportunities to tighten up some parts of it as well."*³⁴

57. Mewn ymateb i bryderon y gallai fod oedi cyn cyflwyno llythyrau hysbysu, eglurodd y Gweinidog fel a ganlyn:

"Mi fuasai'r math yma o bostio o gwmpas y cofrestru awtomatig yn cael ei reoli drwy lwybrau contractio a gweithredol gwahanol i bost cyffredin, sydd efo'r gallu i gynllunio cyfnodau cynhyrchu, anfon a dosbarthu ymlaen llaw. Mae yna lot o waith yn cael ei roi i fewn i'r contract yna. Felly, dydy o ddim yn mynd i ddileu'r risg yn llwyr, ond gobeithio bod hwnna yn ateb eich pwyntiau chi. Dydy o ddim yn

³²Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 1 Hydref 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 300

³³Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 1 Hydref 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 272

³⁴ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 1 Hydref 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 317

mynd i fod yn rhan o'r post cyffredinol; mi fydd o'n gontract penodol ar gyfer y llythyrau penodol yma.”³⁵

Costau cofrestru'n awtomatig

58. Canfu adroddiad gwerthuso'r Comisiwn Etholiadol fod y broses paru data “yn gofyn am waith llafurus, cyson” gyda gwaith llaw sylweddol yn ofynnol ar ôl y paru awtomatig. Nododd hefyd fod costau'n gysylltiedig â nifer y ffurflenni Gwahoddiad i Gofrestru a anfonwyd at unigolion na ellid eu paru â data yn hyderus. Er bod y cynlluniau peilot wedi'u cynnal mewn awdurdodau lleol mewn gwahanol rannau o Gymru, nododd y gwerthusiad na fydd profiad y cynlluniau peilot “o reidrwydd yn gynrychioliad o bob awdurdod lleol yng Nghymru”.

59. Amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru yn wreiddiol y byddai cyfanswm cost gweithredu AVR ledled Cymru ym mlwyddyn un tua £2.6 miliwn. Mae'r Memorandwm yn datgan y defnyddiwyd costau'r peilot i lywio'r amcangyfrifon hyn ochr yn ochr â mewnbwn rhanddeiliaid drwy'r Grŵp Gweithredu AVR, sy'n cynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a ddiweddarwyd ac a gyhoeddwyd fel rhan o Femorandwm Esboniadol diwygiedig ar 29 Medi, yn amcangyfrif bod costau blwyddyn un yn £4.4 miliwn. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y “prif newidiadau yn adlewyrchu model gweithredu cliriach”, gan egluro fel a ganlyn:

“maen nhw'n cynnwys y costau cyflawni i awdurdodau lleol o tua £1.581 miliwn, a chostau uwchraddio EMS, y system feddalwedd, o tua £2.82 miliwn, gan roi cyfanswm amcangyfrif o £4.4 miliwn ar gyfer y gweithredu.”³⁶

60. Aeth swyddog o Lywodraeth Cymru ymlaen i esbonio fel a ganlyn:

“The first RIA that we published was based on expenditure relating to the pilots, and then, on further commercial conversations with the software providers, we had to revise what those costs were going to be because more information was available to us from the software providers on the different work they needed to do following the pilots.”³⁷

³⁵Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 1 Hydref 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 305

³⁶Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 1 Hydref 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 290

³⁷Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 1 Hydref 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 293

61. Mae'r canlynol wedi'i nodi yn y Memorandwm:

“Y tu hwnt i gostau'r flwyddyn gyntaf, mae union gost cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig yn ansicr ond disgwylir iddi leihau'n raddol wrth i gywirdeb y gofrestr wella o flwyddyn i flwyddyn. Bydd y cynnydd mewn cywirdeb yn golygu y bydd angen anfon llai o lythyrau hysbysu a llai o Ffurflenni Gwahoddiad i Gofrestru dilynol o flwyddyn 2 ymlaen.”

62. Tynnodd y Comisiwn Etholiadol sylw at y ffaith bod cyflawni unrhyw broses gofrestru etholiadol yn llwyddiannus yn dibynnu ar ymarferoldeb Systemau Rheoli Etholiadol, gan ddatgan y bydd “angen datblygiad ar gyfer y darparwyr systemau rheoli etholiadol hynny nad ydynt yn rhan o'r cynlluniau peilot hyn”.

63. Awgrymodd Un Llais Cymru y gallai costau godi lle mae ansawdd data yn anghyson, lle mae cyfraddau optio allan neu gofrestru dienw yn uchel, neu lle mae angen uwchraddio seiberddiogelwch neu integreiddio systemau sylweddol. Ychwanegodd y gallai awdurdodau sy'n mynd trwy drawsnewid digidol wynebu costau cychwynnol uwch.

64. Dywedodd y Bwrdd Rheoli Etholiadol y gallai costau gynyddu'n sylweddol lle mae angen i awdurdodau lleol ymgymryd ag achosion helaeth o baru neu lanhau data â llaw, a/neu lle mae data'n cael ei gadw mewn fformatau sy'n anodd eu defnyddio. Ychwanegodd y gallai diffyg amser ar gyfer cynllunio manwl cyn gweithredu, ac ansawdd y feddalwedd sydd ar gael effeithio ar gostau.

65. Nid oedd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol o'r farn bod yr amcangyfrifon cost gwreiddiol wedi cynrychioli'n gywir y baich a roddir ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u timau, ac nad yw'r costau'n darparu eglurder ynghylch Ffurflenni Gwahoddiad i Gofrestru a'r prosesau dilynol y bydd gofyn i Swyddogion Cofrestru Etholiadol eu diwallu er mwyn cynnal cywirdeb y gofrestr. Fe wnaethant alw am gyllid ychwanegol i alluogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ymgymryd â phob cam o'r broses AVR, a chwestiynu a fyddai costau'n leihau dros amser yn y ffordd a ragwelwyd gan Lywodraeth Cymru.

66. Cododd awdurdodau lleol bryder hefyd ynghylch costau a goblygiadau cyflawni cyflwyno cenedlaethol, nad yw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi'i ddeall yn llawn, hyd yn hyn. Nododd fod cyllid yn cynrychioli'r mater pwysicaf i lywodraeth leol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Nododd, hefyd,

na fyddai'r cynlluniau peilot wedi cwmpasu'r ystod lawn o amgylchiadau lleol, ac felly y dylai unrhyw gostau annisgwyl ddisgyn ar Lywodraeth Cymru.

67. Cawsom wybod y canlynol gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol:

*"I think the real importance with funding is it's not one-off funding and that that funding is put into budgets and ring-fenced for this activity on an ongoing basis. I think what we've seen so far is a response from the Welsh Government to support one-off related costs up to the 2027 election, but I think the real risk is that that isn't ongoing."*³⁸

68. Pwysleisiodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, hefyd, bwysigrwydd cyllid parhaus:

*"it's knowing what challenges may arise out of things and then the ongoing funding. As I said, it's not just delivery here, it's what software development needs to continue to develop—we feel like what's being delivered this time is probably a minimum viable product. But it's looking at how you advance the way that you move from manual verification processes of data, how to continue to expand on those to bring capacity to electoral services teams."*³⁹

69. Pwysleisiodd Cyngor Sir Powys yr angen i glustnodi cyllid er mwyn sicrhau y gall timau etholiadol gadw staff yn y blynyddoedd i ddod:

*"it is a concern that's been raised by my colleagues: that we will recruit new staff to do this process, but if the funding dries up after March or that our local councils don't prioritise it because it's not ring-fenced to us, those staff will leave and so will those skills, that knowledge, and this will be a recurring process where we will lose that skill set. it will take an awful lot of time to get them recruited, to get them trained up and skilled and knowledgeable about the process, and hopefully support us into the local elections next year, and we'll potentially lose them if we can't get that funding based in the teams."*⁴⁰

³⁸ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 182

³⁹ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 183

⁴⁰ Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 189

70. Esboniodd swyddog o Lywodraeth Cymru mai ar awdurdodau lleol y bydd costau rheolaidd yn syrthio, a nododd y costau ariannu, fel a ganlyn:

“in the first year, we've done that as a specific grant because it's a one-off new process that's being met. The new way of registering people through automatic registration will be a new statutory duty, so they'll need to meet that through funding that we're allocating through the RSG in future years.”⁴¹

71. Bydd costau'r Comisiwn Etholiadol yn cael eu hariannu drwy Gronfa Gyfunol Cymru.

Gwerthusiad AVR yn y dyfodol

72. Awgrymodd y dystiolaeth a gafwyd y dylai adolygiad ffurfiol o gyflwyniad cenedlaethol o AVR ddigwydd yn fuan ar ôl y cylch etholiadol llawn cyntaf. Nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y rheoliadau i gynnal adolygiad o'r fath. Fodd bynnag, dywedodd y Comisiwn Etholiadol wrthym y byddant yn cynnal eu gwerthusiad arferol yn dilyn etholiad 2027 a'u bwriad yw i AVR fod yn rhan sylweddol iawn o'r broses adrodd honno.⁴²

73. Dywedodd y Comisiwn Etholiadol y bydd monitro a gwerthuso parhaus o weithrediad yr AVR yn hanfodol wrth sicrhau y gellir parhau i fireinio a gwella'r broses yn y dyfodol er budd pleidleiswyr a gweinyddwyr etholiadol.

74. Awgrymodd y Bwrdd Rheoli Etholiadol y gallai adolygiad ffurfiol o AVR gynnig sicrwydd hanfodol i'r Senedd, i Weinidogion, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, gweinyddwyr a phleidleiswyr. Cefnogodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol adolygiad o'r fath hefyd, ac ychwanegodd y dylid adolygu gweithrediad ac effaith AVR dros sawl blwyddyn.

75. Awgrymodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y dylai adolygiad asesu costau gwirioneddol yr aed iddynt gan awdurdodau, yn ogystal ag effaith weinyddol, cywirdeb data a chanlyniadau anfwriadol o ganlyniad yn sgil y broses weithredu.

76. Yn yr un modd, dywedodd Un Llais Cymru y byddai adolygiad o fewn 12-18 mis yn briodol, er mwyn helpu i nodi amrywiadau mewn capasiti digidol,

⁴¹Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 1 Hydref 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 294

⁴² Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 17 Medi 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 35

ansawdd data, a phwysau gweithredol ar draws awdurdodau lleol, gan sicrhau bod y system yn datblygu'n gyson ac yn deg.

77. Awgrymodd Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru y gallai'r Comisiwn Etholiadol gynnal unrhyw adolygiad o'r fath, sef barn a gefnogir gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, a ddywedodd y dylai hwn fod yn adolygiad gan y Comisiwn Etholiadol a Llywodraeth Cymru.

78. Dywedodd y Gweinidog wrthym o ran gwerthuso:

*"mae'n debyg mi fydd yna broses barhaol yn digwydd dros y blynyddoedd nesaf, achos mi fydd yna setiau data newydd, mi fydd angen gwneud y gwaith yma yn barhaol. Dydy o ddim jest yn rhywbeth sy'n digwydd unwaith."*⁴³

Ein barn ni

79. Rydym yn nodi bod y dystiolaeth a gyflwynwyd inni yn gefnogol o'r egwyddor o gyflwyno cofrestru etholiadol heb gais fel modd o gynyddu nifer y pleidleiswyr cymwys cofrestredig. Rydym yn cytuno â'r syniad hwnnw ac yn croesawu mentrau i gynyddu cyfranogiad democrataidd. Mae mwyafrif Aelodau'r Pwyllgor yn cydnabod bod AVR yn fesur cydnabyddedig ar gyfer hwyluso hyn, ac felly'n cefnogi ei weithredu ledled Cymru.

80. Er bod y rhan fwyaf o'r Aelodau'n cefnogi'r Rheoliadau hyn ac yn argymhell eu bod yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd heb unrhyw welliant sylweddol, rydym o'r farn y bydd angen gwneud rhagor o waith i werthuso a monitro eu heffeithiolrwydd a lliniaru unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Mae profiad yr awdurdodau lleol a gymerodd ran yn y cynlluniau peilot, a'r dystiolaeth a gasglwyd ohonynt, yn werthfawr, ond dim ond nifer fach oedd y rhain ac efallai nad yw eu profiad a'u hamgylchiadau unigol yn adlewyrchu'n llawn brofiad a hamgylchiadau pob awdurdod lleol yng Nghymru. Bydd yn hanfodol gwerthuso'r gweithrediad cenedlaethol a dysgu gwersi i lywio a llunio ymarferion yn y dyfodol.

81. Mae un o'n prif bryderon yn ymwneud â'r cyfnod a bennir yn y Rheoliadau pan all person optio allan o gael ei gofrestru'n awtomatig, neu wneud cais am gofrestru'n ddienw. Cafodd yr amserlen a ddarparwyd ar gyfer hyn ei lleihau'n sylweddol yn y Rheoliadau, o'i gymharu â'r cynlluniau peilot. Er ein bod yn deall bod amserlen o 28 diwrnod yn fuddiol ar gyfer cynllunio a gweinyddu

⁴³Y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, 1 Hydref 2026, Cofnod y Trafodion, paragraff 358

etholiadau effeithiol, ni ddylai hyn fod ar draul sicrhau digon o amser i bobl, yn enwedig unigolion sy'n agored i niwed, i optio allan os ydynt yn dymuno. Ni ddylid peryglu unrhyw un o ganlyniad i'r Rheoliadau hyn, felly mae'n hanfodol sicrhau bod yna fesurau diogelu digonol ac effeithiol ar waith.

82. Rydym yn siomedig nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cynnal unrhyw ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn gyda sefydliadau rhanddeiliaid sy'n cynrychioli grwpiau sy'n agored i niwed, yn enwedig gan fod pryderon posibl ynghylch diogelwch wedi'u codi gan ein Pwyllgor rhagflaenol yn ystod ei waith craffu ar Fil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). Mae pryderon o'r fath yn parhau, ac mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau brys i weithio gyda grwpiau cyn cyflwyno AVR yn genedlaethol. Bydd yn hanfodol codi ymwybyddiaeth o'r newidiadau a'u cyfleu, a bydd defnyddio arbenigedd rhanddeiliaid perthnasol yn amhrisiadwy. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

83. Dylai gwerthusiad o AVR yn y dyfodol asesu'n benodol a yw'r amserlen o 28 diwrnod yn ddigonol, ac yn lliniaru'r risgiau a amlygwyd gan rhanddeiliaid. Dylai ystyried unrhyw achosion o beryglu unigolion, neu o greu'r potensial i beryglu unigolion, wrth eu cofrestru'n awtomatig heb eu gwybodaeth.

84. Rydym yn cydnabod sicrwydd y Gweinidog Cabinet y bydd gohebiaeth sy'n ymwneud ag AVR yn cael ei dosbarthu trwy gontract gwahanol o'i gymharu â danfoniadau cyffredinol drwy'r post, ac er bod hyn yn lleddfu rhai o'n pryderon ynghylch oedi posibl, rydym o'r farn y dylid parhau i fonitro hyn.

85. Rydym yn deall rhesymeg Llywodraeth Cymru dros fod eisiau ymgymryd â chyflwyno AVR yn genedlaethol cyn yr etholiadau llywodraeth leol a drefnwyd ar gyfer 2027, ond rydym yn cydnabod bod yr amserlenni'n dynn. Rydym yn cydnabod y bydd timau etholiadol awdurdodau lleol eisoes yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer yr etholiadau hyn ac y bydd cynnal ymarfer AVR yn rhoi pwysau ychwanegol arnynt. Er bod yr amserlen ar gyfer cytuno ar y Rheoliadau cyn yr etholiad yn cydymffurfio â Chonfensiwn Gould,⁴⁴ byddai wedi bod yn well rhoi mwy o amser i dimau etholiadol baratoi ar gyfer newid mor arwyddocaol. Cawsom sicrwydd y bydd timau'n gallu ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol o fewn yr amser sydd ar gael. Fodd bynnag, bydd angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael eu cefnogi yn y dasg hon. Dylai hynny

⁴⁴ Mae Confensiwn Gould (a elwir hefyd yn Egwyddor Gould) yn nodi y dylid cwblhau a deddfu unrhyw newidiadau mawr i gyfraith neu arfer etholiadol o leiaf chwe mis cyn yr etholiad y maent yn effeithio arno.

gynnwys, lle bo angen, cael mynediad at gronfeydd ychwanegol, er enghraifft i recriwtio staff, er mwyn cyflawni'r gofynion.

86. Nodwn fod y Rheoliadau'n darparu ar gyfer cynnal ymarferion AVR o leiaf unwaith y flwyddyn. Rydym yn cydnabod y byddai ymarferion amlach yn debygol o ddarparu system fwy effeithiol a chywir ar gyfer nodi pleidleiswyr cymwys. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod ymarfer blynyddol yn taro cydbwysedd priodol. Bydd cynnal nifer o ymarferion bob blwyddyn yn cynyddu'r pwysau ar staff etholiadol, yn enwedig yn y tymor byr. Fodd bynnag, efallai y bydd gwerthusiadau yn y dyfodol yn nodi bod ymarferion mwy rheolaidd yn fuddiol yn y tymor hwy.

87. Rydym yn cydnabod ac yn rhannu'r pryderon a godwyd mewn perthynas ag argaeledd ac ansawdd y data lleol a ddefnyddir i nodi pleidleiswyr cymwys. Mae gorfod dibynnu ar ffynonellau data cyfyngedig yn amlwg yn wendid yn y system. Er ein bod yn gwerthfawrogi'r cyfyngiadau o ran gallu cael mynediad at ffynonellau data eraill, megis y rheini a gedwir gan asiantaethau Llywodraeth y DU, rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddilyn trefniadau gyda Llywodraeth y DU i alluogi defnyddio ffynonellau o'r fath.

88. Rydym hefyd yn pryderu y gallai cost gweithredu AVR fod yn uwch nag a ragwelwyd, gan fod yr amcangyfrif yn seiliedig ar brofiad y nifer fechan o awdurdodau lleol a gymerodd ran yn y cynlluniau peilot. Nid yw'r cynnydd o £1.8 miliwn rhwng yr amcangyfrif diwygiedig a gyhoeddwyd ym mis Medi a'r amcangyfrif gwreiddiol a gyhoeddwyd ar adeg ei gyflwyno yn ddibwys, ac er ei fod yn darparu amcangyfrif cost mwy cywir yn seiliedig ar dybiaethau ariannu wedi'u diweddarau, byddai'n destun pryder inni pe bai costau'n codi ymhellach fyth.

89. Rydym yn ymwybodol y bydd gweithredu'r Rheoliadau yn gofyn am newid i'r feddalwedd a ddefnyddir gan dimau etholiadol. Rydym yn sylweddoli y bydd hyn yn golygu newid i feddalwedd bresennol yn hytrach na systemau newydd. Fodd bynnag mae gan unrhyw newid y potensial i gael ei ohirio neu arwain at effeithiau anfwriadol eraill. Roedd yn rhywfaint o dawelwch meddwl inni o glywed bod swyddogion Llywodraeth Cymru'n cyfathrebu rheolaidd â'r darparwyr, ac yn monitro cynnydd.

90. Rydym yn gwerthfawrogi mai'r Rheoliadau hyn yw'r rhai cyntaf i fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn a nodir yn adran 19 o Ddeddf 2024, ac felly mae'r broses wedi nodi rhai materion y dylid, yn ein barn ni, eu hystyried pan ddefnyddir y weithdrefn hon yn y dyfodol. Wrth gyflwyno rheoliadau yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod is-ddeddfwriaeth ac amserlenni

gweithredu yn cael eu cynllunio gyda digon o amser i gynnal gweithdrefn graffu lawn y Senedd. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer rheoliadau diwygio etholiadol a ddylai fod ar waith o leiaf chwe mis cyn yr etholiad y maent yn effeithio arno. Yng nghyd-destun y Rheoliadau hyn, ni fyddai'n bosibl gwneud newidiadau sylweddol mewn pryd ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2027.

Argymhelliad 1. Mae mwyafrif Aelodau'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Senedd gytuno ar Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cofrestru Etholiadol heb Geisiadau) (Diwygio Etholiadol) (Cymru) 2026, heb unrhyw ddiwygiad sylweddol.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwerthusiad rheolaidd yn cael ei gynnal yn dilyn ymarferion AVR. Rydym o'r farn y bydd gwerthuso ymarferion AVR yn rheolaidd yn hanfodol i asesu eu heffeithiolrwydd, ac er mwyn dysgu gwersi ar gyfer dulliau yn y dyfodol. Dylai'r gwerthusiad cyntaf ddigwydd o fewn 12 mis i'r Rheoliadau ddod i rym, ynghyd â rhaglen ar gyfer gwerthusiadau dilynol ar adegau rheolaidd. Dylai gwerthusiadau gynnwys, heb fod yn gyfyngedig i: Digonolrwydd y cyfnod hysbysu i optio allan; amllder ymarferion AVR; argaeledd ac ansawdd data; a chostau.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda grwpiau sy'n cynrychioli pobl sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rheini sy'n cefnogi goroeswyr cam-drin domestig, i gyfathrebu ynghylch y newidiadau a chodi ymwybyddiaeth ohonynt cyn cyflwyno AVR yn genedlaethol.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â Llywodraeth y DU i archwilio opsiynau ar gyfer caniatáu i dimau etholiadol gael mynediad at ffynonellau data'r DU.

Atodiad 1– Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y dystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau dystiolaeth lafar ar [dudalen y Pwyllgor ar y we](#).

Dyddiad	Enw a Sefydliad
17 Medi 2026	Ian Bancroft, Bwrdd Rheoli Etholiadol i Gymru Tom Davies, Y Comisiwn Etholiadol Tom Hawthorn, Y Comisiwn Etholiadol Sandra Matthews, Cyngor Sir Powys Marc Pascoe, Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru Clare Sim, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol
1 Hydref 2026	Siân Gwenllian AS, Y Gweinidog Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio Michael Kay, Llywodraeth Cymru Ben Mincher, Llywodraeth Cymru

Atodiad 2 – Rhestr o’r dystiolaeth ysgrifenedig

Darparodd y bobl a’r sefydliadau canlynol dystiolaeth
ysgrifenedig i’r Pwyllgor. Mae’r holl wybodaeth ysgrifenedig
i’w gweld ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
Papur 4, 17 Medi 2026	Y Comisiwn Etholiadol
Papur 5, 17 Medi 2026	Bwrdd Rheoli Etholiadol i Gymru
Papur 6, 17 Medi 2026	Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol
Papur 7, 17 Medi 2026	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Papur 13, 17 Medi 2026	Un Llais Cymru
Papur 14, 17 Medi 2026	Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru
Papur 6, 1 Hydref 2026	Llywodraeth Cymru
Papur 14, 1 Hydref 2026	Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru
Papur 17, 1 Hydref 2026	Cymorth i Fenywod Cymru

Gwybodaeth ychwanegol

Teitl	Dyddiad
Y Comisiwn Etholiadol	1 Hydref 2026